# Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu

**Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu.**

Nid yw'r cyhoeddiad hwn bellach yn gyfredol.

KICKSTART SCHEME

CYNLLUN AR GYFER SWYDDI

# CANLLAWIAU BRAND

Fersiwn 1.1

Chwefror 2021

Llywodraeth EM

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 03 |
| Am y Cynllun | 04 |
| Ein Delwedd | 05 |
| Cynrychiolaeth a Defnydd Brand | 06 |
| Y logo | 07 |
| Defnyddio'r logo | 08 |
| Camddefnyddio'r logo | 09 |
| Symbol | 10 |
| Teipograffeg | 11 |
| Lliwiau | 12 |
| Deunydd hyrwyddo | 13 |

# CYFLWYNIAD

Mae'r deunyddiau yn y pecyn hwn wedi'u paratoi i roi gwybodaeth ac arweiniad i chi ar yr ymgyrch fel y gallwch ei hehangu trwy eich sianeli a'ch rhwydweithiau eich hun..

## Y pecyn cymorth hwn

O ran dweud wrth bobl am y buddion y mae ***Cynllun Kickstart*** yn eu darparu, rydym am gyflwyno neges glir a chyson.

Mae strategaeth frand ***Cynllun Kickstart*** yn adlewyrchu ac yn hyrwyddo ein gwerthoedd a'n diwylliant, mae'n cael ei chyfleu trwy ein safonau o weithio ac yn cael ei chynrychioli gan ddelwedd ein hymgyrch.

Bydd yr ymgyrch yn cyd-fynd â blaenoriaethau allweddol y llywodraeth, gan gynnwys creu economi gryfach, decach, cymdeithas fwy gofalgar, yn ogystal â Strategaeth Ddiwydiannol y DU.

## Delwedd yr ymgyrch

Delwedd ein hymgyrch yw'r elfen frand a ddefnyddiwn i gynrychioli ***Cynllun Kickstart*** fel ymgyrch ynddo'i hun.

Mae'r rhan weladwy yn cynnwys pedair prif elfen: y logo, lliwiau, ffontiau a dyfeisiau graffig. Rhaid i'r rhain fod yn hawdd i'w adnabod ac yn cael eu defnyddio'n gyson ar ein cyfathrebiadau.

Mae'r canllaw hwn wedi'i gynllunio i egluro sut a phryd i ddefnyddio'r elfennau hyn.

**Cyswllt Cynllun Kickstart:**
kickstart.scheme@dwp.gov.uk

# Y CYNLLUN

## Yr amcan

Bydd y llywodraeth yn cyflwyno ***Cynllun Kickstart*** newydd i ariannu'r broses o greu swyddi o ansawdd uchel yn uniongyrchol i bobl ifanc sydd â'r risg uchaf o ddiweithdra hirdymor. Bydd yn rhoi'r cyfle i bobl ifanc fagu eu hyder a'u sgiliau yn y gweithle, ac ennill profiad a fydd yn gwella eu cyfle o fynd ymlaen i ddod o hyd i waith hirdymor, cynaliadwy.

Bydd hyn yn eistedd ochr yn ochr â sylfaen sicr o gefnogaeth trwy Gynnig Ieuenctid estynedig a ddarperir trwy'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), gan ddarparu ystod o gymorth a dargedir i helpu pobl ifanc i ddod o hyd i waith parhaol.

## Sut mae'n gweithio

Bydd y llywodraeth yn cyflwyno ***Cynllun Kickstart*** newydd ym Mhrydain Fawr, cronfa gwerth £2 biliwn i greu cannoedd o filoedd o leoliadau gwaith 6 mis, o ansawdd uchel wedi'u hanelu at y rhai 16-24 oed sydd ar Gredyd Cynhwysol ac y bernir eu bod mewn perygl o ddiweithdra hirdymor.

Bydd y cyllid sydd ar gael ar gyfer pob swydd yn talu 100% o'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol perthnasol am 25 awr yr wythnos, ynghyd â chyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr cysylltiedig a lleiafswm cyfraniadau cofrestru awtomatig y cyflogwr.

## Y buddion

Ar gyfer pob swydd ***Kickstart***, bydd y llywodraeth yn:

- Talu'r gost am 25 awr o waith yr wythnos ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol
- £4.55 i rai dan 18 oed
- £6.45 i bobl ifanc 18 i 20 oed
- £8.20 i bobl 21 i 24 oed

Gall cyflogwyr ychwanegu at y taliad hwnnw os dymunant.

# EIN DELWEDD

Nid logo yn unig yw ein delwedd. Mae'n gynllun sydd wedi'i ddylunio i gynnwys nifer o elfennau craidd sy'n dod ynghyd i greu golwg a theimlad unigryw sy'n gwneud brand ***Cynllun Kickstart*** yn hawdd ei adnabod.

## Defnyddio'r canllawiau brand

Gellir defnyddio'r canllawiau brandio ar gyfer digidol ac argraffu gan gynnwys: cyfryngau cymdeithasol, cyfathrebu mewnol ac unrhyw fath arall o gyfryngau cyfathrebu y mae'r sefydliadau sy'n cymryd rhan yn dymuno eu defnyddio.

Fe'u dyluniwyd i ddarparu golwg a theimlad cyson, gan sicrhau bod brand ***Cynllun Kickstart*** yn cael ei gynnal trwy gydol pob cyfathrebiad.

## Elfennau ac asedau craidd

Yma gallwch ddod o hyd i'r holl flociau adeiladu sydd eu hangen arnoch i'ch helpu i ddatblygu cyfathrebiadau cymhellol gan ddefnyddio brand ***Cynllun Kickstart***. Bydd y tudalennau canlynol yn eich tywys trwy'r elfennau craidd.

# CYNRYCHIOLAETH A DEFNYDD BRAND

## Disgrifio eich rhan yn y Cynllun Kickstart

Rhaid i chi beidio â chamgynrychioli eich rhan yn y Cynllun Kickstart. Rhaid i chi beidio â disgrifio'ch hun fel cyflogwr neu borth Cynllun Kickstart cymeradwy nes eich bod wedi cael cais i gymryd rhan yn y Cynllun Kickstart wedi ei gymeradwyo gennym a'ch bod wedi llofnodi cytundeb grant gyda ni.

## Defnyddio logo Cynllun Kickstart

Mae'r defnydd o'n logo Cynllun Kickstart yn gyfyngedig. Dim ond yn y sefyllfaoedd canlynol y gallwch ddefnyddio logo Cynllun Kickstart:

- Pan ganiateir hynny o dan gytundeb grant rhyngoch chi a ni

Mae unrhyw ddefnydd o'r logo yn destun:

- Iddo fod yn cael ei ddefnyddio yn unol â chanllawiau brand Cynllun Kickstart
- Iddo beidio cael ei ddefnyddio i awgrymu unrhyw ardystiad anfwriadol i'ch gweithgareddau gan yr Adran Gwaith a Phensiynau
- Ichi bedio gwneud unrhyw beth i ragfarnu ein perchnogaeth o'r logo na'i enw da

# Y LOGO

Dynamig. Yn symud.
Cadarnhaol. Dibynadwy.

Y logo yw elfen fwyaf gweladwy ein delwedd - arwyddnod ar draws holl ddelweddau cyfathrebu ***Cynllun Kickstart***.

Rydym yn falch iawn ohono ac rydym yn mynnu eich bod yn dilyn y canllawiau hyn i sicrhau ei fod bob amser yn edrych ar ei orau.

Y logo dau liw ***Cynllun Kickstart***, yw ein prif liwiau'r logo. Dylid ei ddefnyddio ar gefndiroedd gwyn neu liw golau.

Dim ond ar gefndiroedd gwyn neu liw golau y dylid defnyddio logo ***Cynllun Kickstart*** du, a lle nad yw'r logo dau liw yn ymarferol.

Dylid defnyddio logo gwyn ***Cynllun Kickstart*** i frandio fideos a deunydd eraill sydd â chefndiroedd du neu dywyll, a lle nad yw'r logo dau liw yn ymarferol.

# DEFNYDDIO'R LOGO

## Parth gwahardd

Er mwyn amddiffyn eglurder a chywirdeb gweledol y logo, cadwch le clir o'i gwmpas bob amser. Gelwir hyn yn 'parth gwahardd'.

Mae gofod clir logo ***Cynllun Kickstart*** yn seiliedig ar uchder yr icon X (fel sydd i'w weld isod), sy'n cyfateb i uchder geiriad ***Kickstart***.

***Cynllun Kickstart*** parth gwahardd y logo





## Maint lleiaf

Mae sefydlu maint lleiaf yn sicrhau nad yw effaith a darllenadwyedd y logo yn cael ei gyfaddawdu wrth ei gymhwyso. Defnyddiwch y logo bob amser ar ei faint lleiaf neu'n uwch.

Mewn gwirionedd gallwch wneud y logo mor fawr ag y dymunwch. Cofiwch nad yw mwy bob amser yn well. Fodd bynnag, mae meintiau lleiaf am gymwysiadau logo ar, ac oddi ar y sgrin.

Ni ddylai lled logo ***Cynllun Kickstart*** fyth fod yn llai nag Y = 120px mewn digidol neu Y = 42mm mewn print.

***Cynllun Kickstart*** maint lleiaf logo




**Scrin**
**Y** = 120px

**Print**
**Y** = 42mm

# CAMDDEFNYDDIO LOGO

Mae'n bwysig bod ymddangosiad y logo yn parhau i fod yn gyson. Ni ddylid camddehongli, addasu nac ychwanegu at y logo.

Ni ddylid ceisio newid y logo mewn unrhyw ffordd. Dylai ei gyfeiriadedd, lliw a chyfansoddiad aros fel y nodir yn y ddogfen hon - nid oes unrhyw eithriadau.

Edrychwch ar yr enghreifftiau canlynol i osgoi camddefnyddio logo.

X Peidiwch â newid lliw y logo.

X Peidiwch ag anffurfio'r logo.

X Peidiwch â chreu amlinelliad o'r logo.

X Peidiwch â gosod y logo mewn blwch.

X Peidiwch â chylchdroi'r logo.

X Peidiwch ag ychwanegu effeithiau ar y logo.

# SYMBOL

**Mewn achosion ble mae'r brand *Kickstart* eisoes wedi cael ei sefydlu, gallwn ddefnyddio'r fersiwn llai o'r logo isod.**

Gall y symbol ***'KS'*** hefyd gael ei ddefnyddio fel afatar ar gyfryngau cymdeithasol.

# TEIPOGRAFFEG

Mae teipograffeg yn chwarae rhan bwysig wrth gydnabod brand *Cynllun Kickstart*. Mae'n cyfleu delwedd gyson, unedig ac yn rhoi personoliaeth ar unwaith i'n geiriau ysgrifenedig.

### Ffont sylfaenol

Prif ffont ***Cynllun Kickstart*** yw Futura PT (ar gael am ddim fel rhan o unrhyw gynllun Adobe Creative Cloud). Mae'n lân, yn syml, yn unigryw ac yn ddarllenadwy. Cefnogir pob pwysau ac eithrio Oblique Golau a Golau i roi hyblygrwydd i chi wrth greu eich cyfathrebiadau.

| | | |
|---|---|---|
| Futura PT<br>Book / *Oblique* | ABCDE abcde<br>12345( ).!@£%& | *ABCDE abcde<br>12345( ).!@£%&* |
| Futura PT<br>Medium / *Oblique* | ABCDE abcde<br>12345( ).!@£%& | *ABCDE abcde<br>12345( ).!@£%&* |
| **Futura PT<br>Demi / *Oblique*** | **ABCDE abcde<br>12345( ).!@£%&** | ***ABCDE abcde<br>12345( ).!@£%&*** |
| **Futura PT<br>Heavy / *Oblique*** | **ABCDE abcde<br>12345( ).!@£%&** | ***ABCDE abcde<br>12345( ).!@£%&*** |
| **Futura PT<br>Bold / *Oblique*** | **ABCDE abcde<br>12345( ).!@£%&** | ***ABCDE abcde<br>12345( ).!@£%&*** |
| **Futura PT<br>Extra Bold / *Oblique*** | **ABCDE abcde<br>12345( ).!@£%&** | ***ABCDE abcde<br>12345( ).!@£%&*** |

### Ffont eilaidd

Y ffont eilaidd ***Cynllun Kickstart*** yw Arial. Dim ond pan nad yw Futura PT ar gael y byddwn yn defnyddio'r ffont hwn.

| | | |
|---|---|---|
| Arial<br>Regular / *Italic* | ABCDE abcde<br>12345( ).!@£%& | *ABCDE abcde<br>12345( ).!@£%&* |
| **Arial<br>Bold / *Italic*** | ABCDE abcde<br>12345( ).!@£%& | *ABCDE abcde<br>12345( ).!@£%&* |

# LLIWIAU

Rhennir ein palet lliw yn ddwy brif haen. Mae'r palet lliw eilaidd yn ddewisol i'r Cyflogwyr, a allai ddefnyddio ein logo Kickstart ar eu deunyddiau hyrwyddo wedi'u brandio.

**Lliwiau sylfaenol** - Prif liwiau logo ***Cynllun Kickstart***

| | |
|---|---|
| Hex **000000** | Hex **9e9c9c** |
| R **0** G **0** B **0** | R **158** G **156** B **156** |
| C **0** M **0** Y **0** K **100** | C **41** M **34** Y **34** K **1** |

**Lliwiau eilaidd** - Corfforaethol ond mwy disglair a mwy amrywiol. Gallai'r defnyddiau gynnwys deunydd ar-lein ac all-lein amrywiol

| | | | |
|---|---|---|---|
| Hex **e64425** | Hex **8e004e** | Hex **0d2972** | Hex **00885c** |
| R **230** G **68** B **37** | R **142** G **0** B **79** | R **13** G **41** B **144** | R **3** G **136** B **91** |
| C **3** M **89** Y **100** K **0** | C **36** M **100** Y **45** K **21** | C **100** M **94** Y **26** K **14** | C **87** M **23** Y **80** K **8** |
| Hex **f69055** | Hex **e97dc8** | Hex **4c9ae4** | Hex **94d4cc** |
| R **246** G **144** B **85** | R **233** G **125** B **200** | R **76** G **154** B **228** | R **148** G **136** B **91** |
| C **0** M **53** Y **72** K **0** | C **10** M **61** Y **0** K **0** | C **65** M **29** Y **0** K **0** | C **41** M **0** Y **23** K **0** |

# DEUNYDD HYRWYDDO

Yma gallwch ddod o hyd i enghreifftiau o gynnwys y wasg ac asedau graffeg rydych eu hangen i ddatblygu cyfathrebiadau cymhellol gan ddefnyddio'r brand *Cynllun Kickstart*.

I gael mynediad at asedau ymgyrch a chanllawiau brand ***Cynllun Kickstart***, defnyddiwch y ddolen isod.

**Lawrlwythwch asedau a chanllawiau brand y Cynllun Kickstart**







Cysylltwch gyda kickstart.supportscheme@dwp.gov.uk am unrhyw ymholiadau am frandio.